# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 16 Ionawr 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Barn y Cabinet am y Rhaglen Ddeddfwriaethol

**C10 Geraint Davies:** A fydd gohebiaeth ynghylch barn Cabinet y Cynulliad am y rhaglen ddeddfwriaethol yn cael ei chyhoeddi? (OAQ8773)

**Prif Weinidog Cymru:** Na.

*Atebwyd cwestiwn 11 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Gwaith Adeiladu ar Adeilad Newydd y Cynulliad

**C12 Owen John Thomas:** Pryd bydd Prif Weinidog Cymru mewn sefyllfa i gyhoeddi dyddiad dechrau pendant i'r gwaith adeiladu ar adeilad siambr newydd y Cynulliad? (OAQ8816) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Bydd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gwneud datganiad cyn hir i'r Cynulliad ar hynt prosiect adeilad newydd y Cynulliad. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y dyddiad dechrau.

### Cyfrifoldeb am Faterion Trawsbynciol

**C13 Jocelyn Davies:** Pa faterion trawsbynciol y mae Prif Weinidog Cymru'n gyfrifol amdanynt? (OAQ8821*)* ***Tynnwyd yn ôl.***

### Monitro a Dylanwadu ar Broses Ddeddfwriaethol San Steffan

**C14 Pauline Jarman:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch y ffyrdd y mae'r Cynulliad yn monitro proses ddeddfwriaethol San Steffan mewn perthynas â Chymru, ac yn dylanwadu arni? (OAQ8765)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i Janet Davies yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Rhagfyr, (OAQ8613).

### Gohebiaeth Rhwng y Cabinet a Swyddfa Cymru

**C15 David Lloyd:** A fydd gohebiaeth rhwng Cabinet y Cynulliad Cenedlaethol a Swyddfa Cymru'n cael ei chyhoeddi? (OAQ8774)

**Prif Weinidog Cymru:** Na.

### Lleihau'r Difrod a Achosir gan Lifogydd

**C16 Peter Black:** Pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru'n eu cymryd i gydlynu gweithredu traws-adrannol gan Gabinet y Cynulliad i leihau'r difrod y gallai unrhyw lifogydd pellach yng Nghymru ei achosi? (OAQ8746)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae fy nghyd-aelodau yn y Cabinet a mi’n cadw mewn cysylltiad rheolaidd ar y materion hyn. Er enghraifft, bu Sue Essex ac Edwina Hart yn bresennol yn y drafodaeth berthnasol yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth.

**Gwneud Cabinet y Cynulliad yn fwy Tryloyw**

**C17 Janet Ryder:** A yw Prif Weinidog Cymru yn bwriadu gwneud Cabinet y Cynulliad yn fwy tryloyw? (OAQ8815) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Mynd i’r Afael â Hiliaeth yng Nghymru**

**C18 Richard Edwards:** Yn rhinwedd ei swydd fel cydlynydd datblygu polisïau, pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch mynd i’r afael â hiliaeth yng Nghymru? (OAQ8789) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Ymgynghori ar Bolisïau rhwng y Cabinet a San Steffan**

**C19 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar sut y mae Cabinet y Cynulliad a San Steffan yn ymgynghori ar bolisïau? (OAQ8776) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Codi Proffil Cymru o fewn y Deyrnas Unedig**

**C20 Cynog Dafis:** Pa gynlluniau sydd gan Brif Weinidog Cymru i godi proffil Cymru drwy ddatblygiad polisïau’r Deyrnas Unedig? (OAQ8820) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Denu Gweithgareddau Byd-Enwog i Gymru**

**C21 Glyn Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar unrhyw drafodaethau a gafodd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch denu gweithgareddau byd-enwog i Gymru? (OAQ8775)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda’r Ysgrifennydd Gwladol ar amrediad eang o faterion, gan gynnwys manteision denu digwyddiadau o’r fath i Gymru. Yr wyf wrth fy modd gyda’n llwyddiant diweddar yn denu nifer o ddigwyddiadau â phroffil uchel, a fydd yn gymorth sylweddol i hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol, a byddaf yn parhau i annog a chefnogi ceisiadau am ddigwyddiadau o’r fath.

**Effeithiau Gollyngiadau Ymbelydrol o BNFL Sellafield**

**C22 Alun Pugh:** A ydyw Prif Weinidog Cymru wedi cael unrhyw drafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru neu unrhyw aelodau eraill o Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch effeithiau gollyngiadau ymbelydrol o BNFL Sellafield ar arfordir gogledd Cymru? (OAQ8756)

**Prif Weinidog Cymru:** Cynhaliaf drafodaethau rheolaidd a mynych gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac aelodau eraill o Lywodraeth y DU ar amrediad o faterion. Mae fy swyddogion yn cysylltu’n rheolaidd ag Asiantaeth yr Amgylchedd a’r Arolygwyr Sefydliadau Niwclear parthed rheolaeth Sellafield, ac ymgynghorir â hwy ynghylch gwaith monitro gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar bysgod a chreaduriaid eraill y môr o gwmpas arfordir Cymru. Cyhoeddir canlyniadau rhaglenni monitro yn rheolaidd.

**Newidiadau i Bolisi Ewropeaidd y Cynulliad**

**C23 Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar unrhyw newidiadau a wnaethpwyd ganddo i bolisi Ewropeaidd y Cynulliad? (OAQ8790)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr unig newid diweddar oedd bod Tom Middlehurst wedi cymryd fy lle fel un o gynrychiolwyr y Cynulliad ar fwrdd Canolfan Ewropeaidd Cymru. Bu sawl datblygiad, gan weithredu polisi presennol y Cynulliad o ymwneud yn agosach â sefydliadau Ewropeaidd, gan gynnwys presenoldeb Gweinidogion o'r Cynulliad mewn tri chyfarfod diweddar o Gyngor y Gweinidogion a'm presenoldeb innau mewn cyfarfod yn Barcelona o gynrychiolwyr llywodraethau rhanbarthol pwysig Ewropeaidd.

**Dirprwyaethau Masnach Rhyngwladol y Cynulliad yn y Dyfodol Agos**

**C24 John Griffiths:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ddirprwyaethau masnach rhyngwladol y Cynulliad yn y dyfodol agos? (OAQ8810) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Effaith Newidiadau o ran Trethi ar Deuluoedd sydd yn Gweithio**

**C25 Ann Jones:** Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru gyda Gweinidogion a swyddogion y Trysorlys ynghylch effaith y newidiadau o ran trethi ar deuluoedd sydd yn gweithio yng Nghymru ers Gorffennaf 1997? (OAQ8759) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Dealltwriaeth y Cyhoedd o Ddatblygu Cynaliadwy a Chynhwysiant Cymdeithasol**

**C26 Rhodri Glyn Thomas:** Sut mae'r Cynulliad am hybu dealltwriaeth y cyhoedd o ddatblygu cynaliadwy a chynhwysiant cymdeithasol? (OAQ8822) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyfraniad Cymru tuag at Ddatblygu Polisïau ar Newid yn yr Hinsawdd**

**C27 Phil Williams:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar gyfraniad Cymru tuag at ddatblygu polisïau ar newid yn yr hinsawdd ar lefel Ewropeaidd? (OAQ8768) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Datblygiadau sydd yn Effeithio ar Gymru**

**C28 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar y datblygiadau sydd yn effeithio ar Gymru yn sgîl y penderfyniadau a wneir gan Gyngor Gweinidogion yr Undeb Ewropeaidd? (OAQ8767) ***Tynnwyd yn ôl.***